COFNODION Y CYNGOR: Materion Agored - 11.00 a.m., Dydd Llun 11 Mawrth 2024
Cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd mewn sawl lleoliad, trwy gyfrwng meddalwedd Zoom

Materion Agored y Cyngor - cofnodion 1-11.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: John Graystone (yn Cadeirio), Stephen Nicholls, Victory Ezeofor, Jenni Jones-Annetts, Tim Palazon, Jan Tiley, Judith Evans, Chris Franks, Lisa O'Connor, Sam Emmett, Salamatu Fada, Dona Lewis, Siôn Aled Owen, Cathy Clark.
Hefyd yn bresennol: Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Clerc); Steffan Alun (cyfieithydd – gwasanaeth cyfieithu ar y pryd).
Ymddiheuriadau: Nicole Kinnaird; Kathryn Robson.
Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. Materion Rhagarweiniol

Fe wnaeth John Graystone ddarllen neges oddi wrth Kathryn Robson, a oedd yn absennol yn sgil marwolaeth ddiweddar ei mam, yn diolch am y blodau, y gefnogaeth a'r negeseuon caredig a anfonwyd yn bersonol ac ar ran y Cyngor. Cofnodwyd cydymdeimlad ffurfiol aelodau'r Cyngor â hi yn sgil ei phrofedigaeth.

Croesawyd aelod newydd o'r Cyngor, Lisa O'Connor, a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf, ac fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo ei lle yn ffurfiol. Fe wnaeth hi gyflwyno'i hun, ac yna cafwyd cyflwyniad byr gan bob un o'r mynychwyr eraill.

3. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2024 a materion yn codi

Cafodd cofnodion Busnes Agored cyfarfod rhithiol blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Nid oedd unrhyw faterion yn codi i'w trafod ar y pryd.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr, Mawrth 2024

Fe wnaeth Mark Baines ddwyn sylw at yr ymgynghoriad oedd yn digwydd ar y pryd ynghylch polisïau Llywodraeth Cymru, a byddai AOC yn cyfrannu atynt trwy gyfrwng ei aelodaeth o ColegauCymru (paragraff 2.10). Roedd y nifer galonogol o ddysgwyr oedd yn astudio yn y sefydliad yn dangos fod y niferoedd y dysgwyr oedd yn cael eu haddysgu mewn darpariaeth wyneb yn wyneb yn nes nag erioed at y sefyllfa cyn Covid. Holodd aelodau'r Cyngor a allai Lluosi (Multiply) ddatblygu yn rhan ormodol o'r cwricwlwm (ofnai rhai aelodau fod hynny wedi digwydd yn achos ESOL yn ystod blynyddoedd diweddar). Pe bai'n cael ei

ariannu hyd at fis Mawrth 2025 a dim mwy, byddai hynny'n annhebygol o ddigwydd, ond pe bai'r cyllid i'w ariannu yn parhau, gallai hynny ddod yn ffactor, yn sgil y gwarged sylweddol a wnaed gan AOC wrth ei gyflwyno yn nifer o ardaloedd awdurdodau unedig.

Dygwyd sylw at y blaenoriaethau mwy penodol o ran cyllid i ariannu addysg ran amser gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2024-25, a fyddai'n achosi heriau o ran ariannu gweithgareddau canghennau/'clybiau' nad oedd yn cyd-fynd â'r dull â mwy o bwyslais ar dargedu. Roedd Hwb Dysgu Port Talbot yn benodol yn wynebu ansicrwydd yn sgil diwedd y cymhorthdal effeithiol (£60,000 yn flynyddol) a dderbynnid i ariannu ei gyrsiau. Roedd adleoli'r hwb yn opsiwn posibl i'w ystyried. Pwysleisiodd nifer o aelodau'r Cyngor na ddylid ystyried atal cefnogaeth AOC i'r ddarpariaeth honno ar chwarae bach nac yn rhy fyrbwyll, o gofio natur wleidyddol ac amseriad newidiadau posibl eraill yn economi'r dref a sefyllfa ariannol gymharol iach AOC. Yn wir, gofynnwyd y cwestiwn rhethregol 'Beth yw diben ein cronfeydd wrth gefn?' mewn perthynas â hynny. Byddai'r Uwch Dîm Rheoli yn cyflwyno papur ger bron y Pwyllgor Adnoddau ym Mehefin 2024 ynghylch y mater hwn.

Byddai AOC yn bresennol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd yn Awst 2024, yn rhedeg ei stondin ei hun y tro hwn, fwy na thebyg. Gwahoddwyd y Llywodraethwyr i wirfoddoli i gyfranogi yn amserlen staffio'r stondin yn ystod y digwyddiad 8 diwrnod. Cyfeiriodd rhai llywodraethwyr at **y posibilrwydd o gynnal digwyddiad cyhoeddus/darlith yn enw'r sefydliad i adlewyrchu cyfraniad CAG/Coleg Harlech/AOC at addysg Gymraeg** (fel pwnc posibl) ym Mhabell y Cymdeithasau. Nodwyd y contract newydd yn deillio o'r bartneriaeth fuddiol â'r Mudiad Meithrin a chanlyniad da arolwg Estyn o ddarpariaeth addysg oedolion yn y gymuned yn Rhondda Cynon Taf.

Roedd rhaglen Lluosi yn gyfrannwr sylweddol at warged disgwyliedig o £520,000 y flwyddyn ariannol hon (adran 4 yn yr adroddiad), oherwydd rhagwelid y byddai Lluosi yn ehangu yng Nghasnewydd a Chaerdydd. Ar y llaw arall, roedd y prosiect a ariannwyd gan Taith wedi bod yn ddrutach na'r disgwyl (mwy nag £80,000 na'r hyn oedd wedi'i gyllidebu ar ei gyfer). Roedd y gorwariant hwn wedi digwydd oherwydd roedd y 'gyfrifiannell grantiau' generig a ddefnyddid gan Taith yn llai manwl gywir na chynlluniau cynigion manwl a phenodol. Er bod y sefydliad yn ceisio cyllidwyr posibl eraill, roedd yn bosibl y byddai'n rhaid i AOC ddefnyddio'i gronfeydd ei hun i lenwi'r bwlch, a/neu leihau'r ymroddiad i'r prosiect. Dywedodd Cathy Clark fod nifer gymharol lai o fuddiolwyr yn deillio o waith Taith o gymharu â'r rhai oedd yn gysylltiedig â gwaith mwy hirdymor Hwb Dysgu Port Talbot.

Un o'r pynciau trafod pwysig eraill oedd y categorïau cofrestru newydd oedd wedi'u cyflwyno gan Gyngor y Gweithlu Addysg, a oedd yn golygu cynnydd yn lefel y cymwysterau gofynnol ar gyfer athrawon/tiwtoriaid oedd yn gweithio ym maes addysg oedolion, a chyflwyno categori cofrestru i reolwyr am y tro cyntaf. Roedd y cymhlethdodau y byddai'r newidiadau hyn yn eu hachosi wedi'u trafod â Chyngor y Gweithlu Addysg yn nifer o fforymau diweddar ColegauCymru, oherwydd byddai hynny'n effeithio ar golegau AB hefyd. Roedd y cynnig wedi datblygu'n gyflym, yn ôl bob tebyg i lenwi bwlch o ran drafftio'r ddeddfwriaeth wreiddiol, ac 1 Ebrill 2024 oedd dyddiad dod i rym arfaethedig y cynnig. Byddai'n ofynnol hysbysu tiwtoriaid y sefydliad am y mater hwn cyn i Gyngor y Gweithlu Addysg ohebu atynt ynghylch y mater - er bod cyfnod gras ar gael i diwtoriaid i'w galluogi i gyflawni'r cymhwyster neu'r cymwysterau gofynnol newydd. Roedd aelodau'r Cyngor yn cydnabod bod y mater yn un pwysig iawn, a dywedodd un ei fod yn 'fygythiad i fodolaeth y sefydliad' pe bai niferoedd sylweddol o'r tiwtoriaid yn penderfynu gadael o ganlyniad. Credid ei bod yn bwysig ceisio eithriad rhannol i AOC mewn perthynas â hynny, yn un modd ag yr oedd athrawon y blynyddoedd cynnar wedi llwyddo i sicrhau hynny ychydig flynyddoedd ynghynt. Byddai'n anodd i AOC gwmpasu'r ddau gategori cofrestriadau (addysg oedolion ac addysg bellach), oherwydd roedd yn annhebygol y gallai tiwtoriaid gofrestru yn y ddau gategori. Byddai'r newidiadau o ran yr anghenion cymwysterau yn effeithio'n uniongyrchol ar oddeutu 50 tiwtor, ac ofnid y gallent gynnwys rhai o diwtoriaid mwyaf profiadol y sefydliad, yn enwedig rhai oedd yn addysgu cyrsiau ymarferol penodol.

Nodwyd datblygiadau eraill ym meysydd marchnata, digwyddiadau cyhoeddus (e.e. seremoni gwobrau Ysbrydoli! ar gyfer Tiwtoriaid oedd i'w gynnal y noson ddilynol, a ble roedd dau le ychwanegol ar gael i aelodau'r Cyngor fynychu'r digwyddiad), y wefan, y cynllun aelodaeth, a gwerthu tir yn Harlech. Adroddwyd y dylai'r gwasanaethau cwmwl fod wedi'u sefydlu'n llawn erbyn diwedd gwyliau'r haf, ac erbyn hynny byddai profiad yn cael ei gynnal i fesur cadernid y drefn.

5. Cofrestr Risgiau Mawrth 2024

Nid oedd unrhyw risgiau wedi newid o ran eu statws risg gros neu net ers Cofrestr Ionawr 2024, a adolygwyd gan y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio. Yr unig newidiadau oedd rhywfaint o ddiweddariadau ffeithiol i'r sylwebaethau naratif. Byddai'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal cyfarfod yr wythnos ddilynol i adolygu'r un fersiwn o'r Gofrestr.

6. Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ar 7 Mawrth 2024

Cafwyd adroddiad llafar gan Steve Nicholls ynghylch cyfarfod yr wythnos flaenorol. Roedd materion ariannol a newidiadau Cyngor y Gweithlu Addysg, a drafodwyd eisoes dan gofnod 4 uchod, hefyd wedi cael cryn dipyn o sylw yn ystod trafodaethau'r Pwyllgor. Unwaith yn rhagor roedd TIAA, yr archwilwyr mewnol, wedi darparu adroddiad calonogol ynghylch y rheolaethau ariannol mewnol tua diwedd 2023. Hefyd, cafwyd adroddiad gweddol galonogol gan reolwyr buddsoddiadau a chynghorwyr ariannol annibynnol AOC ynghylch perfformiad cronfeydd buddsoddi'r sefydliad, yn enwedig y gronfa newydd oedd wedi'i buddsoddi'n bennaf mewn stociau gilt oedd yn cynnig llai o risg na gweddill y portffolio. Ystyrid fod diffyg cynnydd y Llyfrgell Genedlaethol â'r gwaith o ddigideiddio archifau Coleg Harlech/CAG Gogledd Cymru yn deillio o'r gostyngiad yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru i ariannu gwaith y sefydliad.

7. Datganiadau Ariannol - Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst 2023 -31 Ionawr 2024

Gwnaeth Mark Baines ddwyn sylw at y fantolen y tro hwn. Dangosai'r fantolen fod gan y sefydliad gronfeydd digyfyngiad wrth gefn gwerth £10.1 miliwn. O'r cyfanswm hwn, roedd £4.8 miliwn yn falansau arian parod, yn dilyn trosglwyddiad £1.5 miliwn mewn arian parod yn ystod y flwyddyn flaenorol i'r cronfeydd newydd a oedd yn cynnwys y buddsoddiad mewn stociau gilt a nodir yng nghofnod 6. Achosodd y sefyllfa hon, fel y trafodwyd gan y Pwyllgor Adnoddau yn y gorffennol, densiwn creadigol rhwng y duedd cyfrifyddu/archwilio a oedd o blaid mwy o gronfeydd wrth gefn, a chwilfrydedd posibl Llywodraeth Cymru ynghylch diben bod â symiau cymharol fawr (oedd yn cyfateb fwy neu lai i drosiant un flwyddyn ariannol) yn y tymor canolig.

8. Rhaglen y Gynhadledd Flynyddol ac agenda'r CCB fel rhan o drafodion y diwrnod hwnnw yn Theatr Soar, Merthyr Tudful, ar 9 Ebrill 2023

Cafwyd amlinelliad o'r digwyddiad gan Stephen Thomas, yn cynnwys ei brif thema ynghylch dulliau o ymdrin ag anableddau ym maes addysg oedolion, a'r seremoni i gyflwyno gwobrau i ddysgwyr a gynhaliwyd ar ddiwedd y gynhadledd. (Roedd cyfarfod y panel beirniaid ar gyfer y gwobrau hynny i'w gynnal yr wythnos honno, yn cynnwys pedwar aelod o'r Cyngor.) O ran y CCB oedd i'w gynnal y diwrnod hwnnw, nid oedd unrhyw gynigion wedi'u cyflwyno i'w trafod a'u hystyried, y tro cyntaf i hynny ddigwydd ers sefydlu AOC. Efallai byddai'n rhaid dibynnu ar bleidleisiau dirprwyol i sicrhau'r cworwm o 40 pleidlais oedd yn ofynnol i gymeradwyo 3 eitem weithdrefnol yn y CCB. Roedd ffrydio'r digwyddiad yn fyw yn dal yn bosibl, ond dim ond ar sail 'gwylio goddefol' - ni fyddai modd i neb gyfrannu na phleidleisio ar-lein.

9. Hunan-arfarniad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Cadarnhawyd y byddai cyllideb argostau'r Cyngor yn cael ei defnyddio i dalu costau teithio aelodau'r Cyngor i fynychu'r CCB. Roedd y posibilrwydd o ddarparu cludiant ar y cyd o dde Cymru i Nant Gwrtheyrn i fynychu digwyddiad strategol 22-23 Mai yn cael ei ystyried; byddai llety unigol dros nos ar y nos Fercher ar gael i bawb yr oedd arnynt angen hynny. Wrth rannu ei hargraffiadau o'i chyfarfod cyntaf, dywedodd Lisa O'Connor ei bod yn dymuno cynnwys ei henw yn y rhestr o enwau aelodau'r Cyngor a fyddai'n gallu gwirfoddoli yn stondin AOC yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst.

10. Cofnod materion cyfrinachol yng nghyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2024

Cymeradwywyd hynny fel cofnod gwir a chywir. Adroddwyd hefyd fod **rhywun wedi cysylltu â'r cwmni oedd yn rheoli'r eiddo, heb unrhyw ymateb hyd yn hyn.**

11. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a gweddill y cyfarfodydd cysylltiedig yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol:

- Dydd Mawrth 9 Ebrill 2024: y Gynhadledd Flynyddol gan gynnwys CCB y Sefydliad: Theatr Soar, Merthyr Tudful
- Dydd Mercher a Dydd Iau, 22 a 23 Mai 2024: Digwyddiad Cynllunio Strategol: Nant Gwrtheyrn, Gwynedd
- Dydd Gwener 5 Gorffennaf 2024: Cyfarfod y Cyngor

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Cam gweithredu a gytunwyd	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd ddylid gweithredu
Cofnod 4	Adroddiad y Prif Weithredwr, Mawrth 2024	Bydd AOC yn cadarnhau ei bresenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd yn Awst 2024; ac yn ystyried cynnal digwyddiad cyhoeddus ynghylch pwnc addas yn ystod y digwyddiad.	CH	Gorffennaf 2024
Cofnod 10	Cofnod materion cyfrinachol yng nghyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2024	Bydd angen hysbysu'r Cyngor am ymatebion gan y cwmni sy'n rheoli'r eiddo.	CH	Gorffennaf 2024